Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 31/2026

Dyddiad cyhoeddi: 25 Chwefror 2026

# Adolygiad o dirwedd data trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru

## Crynodeb gweithredol

### Cefndir yr ymchwil

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn argyfwng iechyd cyhoeddus sydd yn aml yn deillio o anghydraddoldeb rhywedd. Mae tystiolaeth yn dangos bod menywod sy'n wynebu sawl math o anfantais yn profi niwed anghymesur o VAWDASV. Yng Nghymru, mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith deddfwriaethol cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar atal, amddiffyn a chymorth, wedi'i ategu gan ddyletswyddau statudol ar gyfer strategaethau cenedlaethol a lleol, a goruchwyliaeth gan gynghorydd cenedlaethol. Mae deddfwriaeth ddilynol y DU, gan gynnwys Deddf Cam-drin Domestig 2021, yn cryfhau ymhellach yr amddiffyniadau ar gyfer goroeswyr ac yn sefydlu diffiniadau a mesurau diogelwch cyson ledled y DU.

Er mwyn gweithredu fframwaith statudol Cymru, mae strategaethau cenedlaethol VAWDASV 2016–2021 a strategaeth cenedlaethol VAWDASV 2022–2026 yn nodi dulliau system gyfan i herio agweddau niweidiol, cryfhau atal, gwella hyfforddiant proffesiynol, a sicrhau gwasanaethau hygyrch o ansawdd uchel. Mae'r strategaeth bresennol yn ehangu ei ffocws drwy lens groestoriadol, atebolrwydd cryfach i

droseddwyr, a sefydlu fframwaith glasbrint amlasiantaeth er mwyn cefnogi’r gwaith o gyflawni strategaeth 2022 i 2026. Mae'r glasbrint wedi'i strwythuro gan ffrydiau gwaith ar ddiogelwch ym mhob man cyhoeddus, aflonyddu rhywiol yn y gweithle, ymyriadau troseddwyr, comisiynu cynaliadwy, anghenion plant a phobl hŷn, a llais goroeswyr. Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae heriau sylweddol o hyd. Ymhlith y rhain y mae bylchau mewn data sy'n benodol i Gymru, rhwystrau y mae grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio yn eu hwynebu, a chyllid anghyson ar gyfer gwasanaethau cymorth, yn ogystal â bylchau mewn data i fesur cynnydd yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol.

Er mwyn cefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod polisïau a chomisiynu wedi'u gwreiddio mewn data o ansawdd uchel a gasglwyd yn foesegol, comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o dirwedd data VAWDASV yng Nghymru.

## Methodoleg

Cynhaliwyd yr ymchwil mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn cynnwys adolygiad manwl o ddeddfwriaeth allweddol Cymru, ochr yn ochr â llenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth lwyd, i gael dealltwriaeth glir o’r cyd-destun o ran polisïau. Yna gweithredwyd protocol chwilio a sgrinio data systematig, gan arwain at nodi 77 o setiau data perthnasol, pob un wedi'i gatalogio gan ddefnyddio taflen echdynnu data strwythuredig, sef offeryn a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth allweddol am setiau data mewn ffordd systematig. Cafodd y chwiliad data ei lywio hefyd gan 11 o gyfweliadau cwmpasu lled-strwythuredig i nodi bylchau, setiau data a chyfyngiadau pellach. Yn olaf, casglwyd tystiolaeth ychwanegol drwy alwad am dystiolaeth a ddosbarthwyd i'r sector, a oedd yn caniatáu i ymatebwyr roi eu barn ar y dirwedd data a gwybodaeth am setiau data ychwanegol drwy ymatebion testun agored a strwythuredig. Roedd yr alwad am dystiolaeth hefyd yn caniatáu i randdeiliaid ddarparu gwybodaeth am ddata heb eu cyhoeddi, nad oedd o bosibl wedi'i chynnwys yn yr adolygiad systematig.

Canolbwyntiodd Cam 2 ar ddadansoddi'r dystiolaeth a gasglwyd i nodi bylchau yn y data. Adolygwyd ymatebion i'r alwad am dystiolaeth drwy ddadansoddi thematig a holi cwestiynau i’r rhanddeiliaid. Defnyddiwyd fframwaith pwrpasol ar gyfer asesu ansawdd data a addaswyd o safonau cenedlaethol ac ystadegol er mwyn asesu pob set ddata o ran amseroldeb, cysondeb, cyflawnrwydd, perthnasedd, strwythur a dibynadwyedd. Adroddir ar ansawdd ar lefel ffrwd waith y glasbrint, ac mae'n seiliedig ar y data sydd ar gael, a chaiff bylchau yn y data eu hasesu mewn pennod ar wahân. Cafodd y canfyddiadau eu cyfuno a'u trefnu yn ôl chwe maes y ffrydiau gwaith, gan alluogi mapio strwythuredig o gryfderau a gwendidau’r data ar draws tirwedd VAWDASV.

Gan dynnu ar yr adolygiad systematig, mewnbwn rhanddeiliaid, ac adborth gan y gweithgor, fe ddatblygodd y tîm ymchwil set o argymhellion wedi'u targedu i wella hygyrchedd, ansawdd a chydlyniant data VAWDASV yng Nghymru.

Mae'r adolygiad hwn yn rhoi cipolwg ar y dirwedd data ar gyfer y cyfnod pan gynhaliwyd yr ymchwil, sef o fis Gorffennaf i fis Tachwedd 2025. Nid yw'r adolygiad yn gynhwysfawr ac felly ni fydd yr holl setiau data presennol yn cael eu cofnodi. Mae'r bennod dadansoddiad o'r bylchau yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch pa ddangosyddion sydd wedi'u cwmpasu’n fwy llawn gan y data a nodwyd a pha rai sydd â bylchau mwy amlwg.

## Prif ganfyddiadau

### Canfyddiadau ledled Cymru

Roedd rhanddeiliaid yn tynnu sylw, yn gyson, at heriau sylweddol o ran rhannu data ac argaeledd data ar draws y sector VAWDASV, gan nodi systemau anghydnaws, capasiti technegol cyfyngedig, pryderon o ran GDPR, a phryderon ynghylch cystadlu am gyllid, sydd oll yn rhwystro cydweithio ac yn achosi risgiau o gyfrif dioddefwyr ddwywaith neu golli patrymau sy’n ailadrodd. Disgrifiwyd y dirwedd data fel un dameidiog, gyda gwybodaeth werthfawr yn aml wedi'i gwahanu, yn anghyson ar draws rhanbarthau, neu ar goll yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, roedd rhai enghreifftiau o arferion gorau, megis porth aml-ffynhonnell yr Uned Atal Trais a chronfa ddata SAIL, sy'n dangos potensial data integredig, cysylltiedig er gwaethaf rhwystrau o ran cost a hygyrchedd.

Un cyfyngiad mawr a nodwyd oedd diffyg data ynghylch cyffredinrwydd sy’n benodol i Gymru a data dadgyfuno ystyrlon ar lefel ddemograffig, gydag Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn gwasanaethu fel y brif ffynhonnell, ond yn cynnig dadansoddiadau ar lefel Cymru na ellir eu dibynnu’n llwyr arnynt oherwydd y ffaith bod maint y samplau’n fach. Nododd rhanddeiliaid fwlch strwythurol ehangach o ran setiau data cenedlaethol sy’n gynrychioliadol ar gyfer Cymru, sydd wedi'i waethygu gan broses anaml o gasglu data a chynnwys mesurau VAWDASV yn anghyson, gan ei gwneud yn anodd olrhain tueddiadau neu asesu cynnydd dros amser.

### Ansawdd y data a nodwyd

Fel rhan o'r adolygiad, aseswyd ansawdd pob set ddata a nodwyd o ran amseroldeb, cysondeb, cyflawnrwydd, strwythur a fformat, perthnasedd, a dibynadwyedd. Yna, rhoddwyd sgôr o 0 i 12 i bob set ddata. Ystyrir bod y setiau data sydd â sgoriau o 0 i 4 o ansawdd isel, ystyrir bod y rhai sydd â sgoriau o 5 i 9 o ansawdd canolig, ac ystyrir bod unrhyw ddata sydd â sgôr o 10 neu uwch o ansawdd uchel. Caiff ansawdd y data yn yr adroddiad ei asesu ar lefel ffrwd waith y glasbrint, ac nid yw'n ystyried bylchau ar lefel ffrwd waith.

### Canfyddiadau yn ôl ffrwd waith y glasbrint

**Aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus:** Nodwyd wyth set ddata yn ymwneud ag aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus, ynghyd â saith set ddata ychwanegol yn ymwneud â niweidiau ar-lein. Fodd bynnag, mae llawer o ffynonellau'n cael eu cyhoeddi'n anrheolaidd, neu ond yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â thrais mewn tonnau arolwg penodol yn unig. Daw'r rhan fwyaf o'r data o arolygon hunan-adrodd sy'n cofnodi teimladau o ddiogelwch, ofn troseddau, ymddiriedaeth mewn ymatebion gan yr heddlu, a phrofiadau o aflonyddu. Ategir hyn gan ddata troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu sydd ar gael yn gyhoeddus ar ffurf gyfanredol yn unig nad yw'n gwahaniaethu rhwng troseddau penodol na rhywedd y dioddefwr. Fel arfer, cofnodir achosion perthnasol o drosedd fel “troseddau treisgar neu rywiol”. Nododd rhanddeiliaid, er bod y maes hwn yn ymddangos fel pe bai wedi'i gwmpasu'n gymharol dda o'i gymharu â ffrydiau gwaith eraill y glasbrint, mae bylchau sylweddol o hyd, yn enwedig yn ymwneud â digwyddiadau lefel is megis heclo a sylwadau digroeso, yn ogystal ag agweddau cymdeithasol sy'n llywio risgiau ac ymddygiadau. Aseswyd y sgôr ansawdd gyffredinol ar gyfer y data ar aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus fel 8.8.

**Aflonyddu yn y gweithle:** Nodwyd pum set ddata ar aflonyddu yn y gweithle, yn seiliedig yn bennaf ar ddata arolwg a hunan-adroddwyd, ac sydd ar gael, yn gyffredinol, ar lefel Cymru gyfan yn unig. Er bod Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth 2024 yn darparu'r mesur mwyaf cadarn o aflonyddu yn y gweithle, dyma'r unig don sy'n cynnwys y cwestiynau hyn, gan gyfyngu ar y gallu i ddadansoddi tueddiadau dros amser. Mae arolygon untro ychwanegol gan Cymorth i Ferched Cymru a TUC Cymru yn cynnig mewnwelediadau pellach, ond nid ydynt yn darparu data pellach y gellid cymharu’r data hyn yn eu herbyn. Mae arolygon o aelodau staff y GIG yn darparu data blynyddol ar fwlio, aflonyddu a thrais, ond nid yw eu canlyniadau wedi'u dadgyfuno yn ôl nodweddion demograffig (gan gynnwys rhywedd), ac mae arolygon eraill, fel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus, yn cynnwys cwestiynau perthnasol yn afreolaidd yn unig. Gwnaed ychydig o sylwadau gan randdeiliaid ynghylch y dirwedd data sy’n ymwneud ag aflonyddu yn y gweithle. Nododd un rhanddeiliad fod gweithleoedd yn dda ar y cyfan am gasglu data ar aflonyddu, o’u cymharu â lleoliadau eraill megis ysgolion neu leoliadau gofal iechyd. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt hefyd y gall y data hyn fod yn anghyson neu'n fylchog, ac yn aml nid yw'n cael eu cyhoeddi, oherwydd y gall gwahanol sefydliadau fesur neu gofnodi data mewn gwahanol ffyrdd. Aseswyd mai 7.2 oedd y sgôr ansawdd gyffredinol ar gyfer y data ar aflonyddu yn y gweithle.

**Mynd i'r afael â throseddu:** Yn gyffredinol, nodwyd bod data cadarn o ansawdd uchel ar droseddwyr yn un o’r prif fylchau yn ein hadolygiad. Er bod 20 set ddata yn ymwneud â mynd i'r afael â chyflawni troseddau, roedd y mwyafrif helaeth o'r rhain yn seiliedig ar ddata plismona a throseddu, ac felly nid oeddent yn cofnodi'r mwyafrif helaeth o droseddau nad ydynt yn arwain at arestiad neu euogfarn. Mae'r diffyg data ynghylch troseddau hefyd yn ei gwneud yn anodd asesu pa mor effeithiol yw

gwasanaethau a rhaglenni ymyrryd yn gynnar ac atal. Daw gweddill y data a nodwyd (pum set ddata) o wasanaethau arbenigol, gyda diffyg data hunan-adrodd nodedig o arolygon gan unigolion sydd wedi cyflawni troseddau VAWDASV. Adleisiodd rhanddeiliaid y canfyddiadau hyn yn fras, gan nodi, er bod data helaeth ar blismona a throseddu, bod y data hyn yn aml yn gyfyngedig neu'n anghyflawn. Nododd un rhanddeiliad, o fewn y trydydd sector, fod y diffyg data yn rhannol oherwydd natur ddarniog y sector gwasanaethau i droseddwyr. Cofnodwyd mai 9.3 oedd ansawdd y data sy'n ymwneud â mynd i'r afael â throseddu. Ymhlith cryfderau'r data y mae'r strwythur/fformat, oherwydd bod y rhan fwyaf o'r data wedi'u gofnodi mewn offeryn penodol neu blatfform cofnodi data, neu Microsoft Excel. Roedd gwendidau penodol yn gysylltiedig â phroses anghyson o gofnodi data ar draws meysydd neu wasanaethau.

**Comisiynu cynaliadwy (dull systemau cyfan):** Roedd y data a oedd yn llywio comisiynu cynaliadwy yn gymysg, o ran y defnydd o wasanaethau a'r galw amdanynt, a'r ddarpariaeth gwasanaethau a'r ymatebion a wnaed ganddynt. Yn gyffredinol, prin oedd y dangosyddion â "lens systemau cyfan", gyda'r rhan fwyaf o'r data yn ymwneud â gwasanaeth neu sector penodol. At ei gilydd, nododd ein hadolygiad chwe set ddata yn ymwneud â'r defnydd o wasanaethau, ac 11 dangosydd yn ymwneud â darparu gwasanaethau. Ymhlith y dangosyddion allweddol oedd data arolwg gan Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (Iechyd Cyhoeddus Cymru), data troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu ar droseddau treisgar a rhywiol, a data ar bryder ynghylch troseddau o Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru). Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod comisiynu cynaliadwy yn cael ei rwystro gan strwythurau partneriaeth cymhleth, trefniadau ariannu dameidiog, a phroses rhannu data gyfyngedig, gan arwain at ofynion adrodd sy'n gorgyffwrdd ac sy'n rhoi baich sylweddol ar ddarparwyr gwasanaethau. Mae'r broses o rannu data wedi'i chyfyngu ymhellach gan wahanol fformatau data, cyllid, a blaenoriaethau sefydliadol, yn ogystal â phryderon am gyfrinachedd, a materion sy'n gysylltiedig â GDPR. Ar y cyfan, cafodd ansawdd y data sy'n ymwneud â chomisiynu cynaliadwy sgôr o 8.2.

**Anghenion pobl hŷn:** Nodwyd anghenion pobl hŷn fel bwlch allweddol. Roedd saith set ddata yn cynnwys dangosyddion ar gyfer pobl 65 oed neu hŷn yng Nghymru, a daeth data o arolygon hunan-adrodd a data am y defnydd o wasanaethau gan wasanaethau arbenigol a statudol. Mae Porth Atal Trais Cymru gan Uned Atal Trais Cymru, sy'n darparu data ar dderbyniadau i ystafelloedd brys, galwadau ambiwlans, ac erledigaeth troseddau yn ôl oedran a rhywedd, yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth sy'n ymwneud â phobl hŷn. Er bod mesurau cyffredinrwydd, fel y rheini sydd wedi'u cynnwys yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, yn cynnwys arsylwadau ar gyfer pobl 65 oed neu hŷn, nid yw dadgyfuniadau ar gyfer Cymru ar sail rhywedd ac oedran ar gael i'r cyhoedd. Er gwaethaf y nifer fach o setiau data, y sgôr ansawdd gyfartalog a neilltuwyd i setiau data ar gyfer y ffrwd waith hon oedd 9.8, gyda

chryfderau penodol o ran ei strwythur a gwendidau bach o ran cysondeb wrth gofnodi data.

**Anghenion plant a phobl ifanc:** Mae'r sylfaen dystiolaeth ar brofiadau plant a phobl ifanc o drais yn cynnwys data gweinyddol a data ar y defnydd o wasanaethau, ac arolygon hunan-adrodd sydd wedi'u targedu'n benodol at bobl ifanc. Mae setiau data allweddol fel casgliad data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) yn darparu cwmpas eang o ansawdd uchel, ond dim ond nifer fach o gwestiynau sy'n gysylltiedig â thrais nad ydynt yn ymddangos ym mhob ton, gan greu bylchau yn y dadansoddiad o dueddiadau. Mae data ar gam-drin domestig gan rieni a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn bodoli ond yn brin, ac yn aml yn cael eu casglu unwaith yn unig, gan ganolbwyntio ar drais yn benodol. Mae data troseddu a dangosyddion ar agweddau neu addysg pobl ifanc ynghylch VAWDASV hyd yn oed yn fwy cyfyngedig, gyda rhai enghreifftiau'n cynnwys Arolwg Carfan y Mileniwm ac Astudiaeth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at gryfderau megis cadernid y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion a'i allu i gysylltu â data gweinyddol, ond fe wnaethant hefyd dynnu sylw at sawl her: yr anhawster o ddylunio cwestiynau addas ar gyfer ymatebwyr iau, diffyg mesurau cyffredinrwydd cenedlaethol dibynadwy ar gyfer plant dan 16 oed, arferion adrodd anghyson ar draws ysgolion, a data cyfyngedig ar atal ac adnabod yn gynnar. Cafodd ansawdd cyffredinol y data sgôr o 9.1, gyda dibynadwyedd cryf ond amseroldeb gwael, gan rwystro'r gallu i fonitro tueddiadau neu asesu cynnydd yn erbyn amcanion yn ymwneud â VAWDASV.

**Llais y goroeswr:** Nodwyd dim ond llond llaw o setiau data a oedd yn cofnodi profiad goroeswyr o drais, ac roedd hyd yn oed y rhain yn cynnig dadgyfuniadau cyfyngedig sy'n benodol i Gymru. Yn nodedig, roedd diffyg gwybodaeth ddemograffig allweddol yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, gan adlewyrchu patrwm cyffredinol ar draws y sylfaen dystiolaeth o ddiffyg data cadarn, croestoriadol. Roedd hyn yn arbennig o wir am gymunedau lleiafrifiedig, pobl anabl, a phobl LHDTC+, heb unrhyw arolygon yn targedu'r poblogaethau hyn yn uniongyrchol a chofnodi anghyson o ffactorau demograffig mewn data gweinyddol. Cafodd ansawdd cyffredinol y data ar lais y goroeswr sgôr o 8.4, gyda chryfderau o ran perthnasedd a strwythur ond gwendidau o ran amseroldeb a chysondeb, gan danseilio'r gallu i ddod i ddealltwriaeth gynhwysfawr, groestoriadol o brofiadau ac anghenion goroeswyr.

### Canfyddiadau o'r alwad am dystiolaeth

Nododd rhanddeiliaid heriau o ran proses anghyson neu anghyflawn o gasglu data a diffyg data sy'n benodol i Gymru, proses gyfyngedig o rannu data rhwng sefydliadau, bylchau mewn rhai grwpiau demograffig, a diffyg metrigau perfformiad er mwyn gwerthuso effaith gwasanaethau, a ystyriwyd yn rhwystrau mawr o fewn y sector.

O'r 26 o ymatebwyr a ymatebodd i'r alwad am dystiolaeth, roedd y mwyafrif helaeth (21 o ymatebwyr) o'r farn bod data VAWDASV naill ai'n aneffeithiol iawn neu'n aneffeithiol i ryw raddau, ac roedd pump o ymatebwyr o'r farn ei fod yn "effeithiol i

ryw raddau”. Pan ofynnwyd iddynt esbonio eu hatebion, fe dynnodd nifer o randdeiliaid sylw at natur ddameidiog y dirwedd ddata, a oedd yn eu barn nhw yn ei gwneud yn anodd deall cysylltiadau rhwng systemau a sefydliadau, pa sectorau a gafodd eu heffeithio arnynt fwyaf, a’r canlyniadau hirdymor i ddioddefwyr a throseddwyr.

Y ffactor a ddyfynnwyd amlaf a oedd yn dylanwadu ar ba mor aml oedd y data sy'n gysylltiedig â VAWDASV yn cael eu diweddaru oedd prosesau rhannu neu ddatgelu data, a oedd yn gwneud diweddariadau rheolaidd yn anos (15 o ymatebwyr), diffyg cyllid i ddiweddaru data yn rheolaidd (12 o ymatebwyr), a’r ffaith bod y data’n cael eu cysylltu â data gweinyddol neu ystadegau (12 o ymatebwyr).

### Dadansoddiad o’r bylchau

Ochr yn ochr â'r drafodaeth ynghylch ble mae bylchau'n bodoli o fewn pob ffrwd waith glasbrint, fe wnaethom hefyd ddadansoddi bylchau mewn perthynas â'r dangosyddion cenedlaethol, gan roi cipolwg ar ba ganlyniadau sydd â data cyfyngedig ar gyfer gwerthuso neu i feincnodi cynnydd. Mae'r dadansoddiad yn defnyddio ein canfyddiadau o'r alwad am dystiolaeth, yr adolygiad systematig o ddata, cyfweliadau â rhanddeiliaid, ac ymgysylltu â'r gweithgor. Nodwyd bylchau ar draws yr holl ddangosyddion, gyda'r mwyaf o fylchau wedi'u nodi mewn perthynas â Dangosydd 2 (cynyddu'r ymwybyddiaeth ar draws pob rhan o gymdeithas bod VAWDASV yn annerbyniol), dangosyddion 3 a 4 (cynyddu’r ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc yng Nghymru o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a chynyddu’r ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc bod cam-drin bob amser yn anghywir), Dangosydd 6 (sicrhau bod ymyriadau priodol ar gael i dramgwyddwyr), a Dangosydd 7 (sicrhau bod ymyriadau cynnar ac effeithiol sy’n seiliedig ar dystiolaeth ar gael i ddioddefwyr a goroeswyr, a’u bod yn gallu cael gafael arnynt yn gyfartal). Fodd bynnag, cafodd Dangosydd 5 (sicrhau bod mwy o achosion sy’n gysylltiedig â VAWDASV yn arwain at arestiadau, erlyniadau ac euogfarnau) a Dangosydd 9 (sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth priodol) eu cwmpasu’n fwy cynhwysfawr gan ffynonellau o ddata sy’n bodoli eisoes.

## Argymhellion

Yn seiliedig ar ganfyddiadau’r ymchwil, fe ddatblygodd y tîm ymchwil yr argymhellion canlynol:

- **Gwella amcangyfrifon sy'n seiliedig ar arolygon o gyffredinrwydd VAWDASV yng Nghymru dros amser**, trwy gynnwys dangosyddion ar arolygon penodol i Gymru neu arolygon Llywodraeth Cymru, neu weithio mewn cydweithrediad â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i gynyddu maint y sampl yng Nghymru ar gyfer Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr.

- **Datblygu fframwaith monitro cenedlaethol i fesur cynnydd yn erbyn gweithredu'r Ddeddf.**

- **Archwilio dichonoldeb hyfforddiant ledled y sector ar arferion gorau mewn data**, er mwyn codi hyder ymarferwyr wrth ddefnyddio data VAWDASV a sicrhau bod data gweinyddol yn cael eu cofnodi'n gyson ac mor gywir â phosibl ar draws ardaloedd.
- **Creu adnodd sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd sy'n catalogio'r data sydd ar gael yng Nghymru**, yn debyg i'r adnodd a ddarperir ac a ddiweddarir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, er mwyn gwella amlygrwydd y data sy'n bodol eisoes.

Alma Economics (2026). Adolygiad o dirwedd data Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 31/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-amgylchedd-ddata-trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-vawdasv

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nerys Owens

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilCyfiawnderCymdeithasol@llyw.cymru

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-200-2